WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rhagfyr 2010

Awdur: Gabrielle Smith

Cyf: 520A2010

# Arlwyo mewn Ysbytai

# Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Mae'r gwasanaethau arlwyo lleol yn diwallu anghenion cleifion yn eithaf effeithiol ond gellid gwneud mwy i safoni'r gwasanaethau arlwyo a gwella profiad cleifion.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb ac Argymhellion** | 4 |
| **Adroddiad Manwl** | |
| **Trefniadau rheoli a chynllunio strategol** | 10 |
| Mae trefniadau rheoli a chynllunio strategol y gwasanaethau arlwyo yn effeithiol ym mhob ysbyty ar y cyfan ond gellid eu cryfhau drwy waith craffu mwy trylwyr gan y Bwrdd | 10 |
| **Caffael, cynhyrchu a rheoli costau** | 14 |
| Mae angen cryfhau'r trefniadau cynhyrchu bwyd a rheoli costau | 14 |
| **Dosbarthu bwyd i'r ward ac i'r claf** | 22 |
| Mae'r trefniadau ar gyfer dosbarthu bwyd i'r wardiau a'r cleifion yn effeithiol ar y cyfan ond mae lle i wella profiadau amser bwyd i gleifion | 22 |
| **Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad** | 28 |
| Mae'r gwasanaethau arlwyo yn ddigon hyblyg i sicrhau bod y rhan fwyaf o gleifion yn derbyn y maeth sydd ei angen arnynt ond mae sgrinio maethol ar adeg eu derbyn yn aml yn anghyflawn | 28 |
| **Casglu barn cleifion a rhannu gwybodaeth** | 35 |
| Er bod yna ymdrech i gasglu barn cleifion, gellid gwneud mwy i gyhoeddi sut mae eu barn yn cyfrannu at welliannau yn y gwasanaeth o ystyried bod boddhad cleifion â'r gwasanaeth yn gymharol isel ar y cyfan | 35 |
| **Atodiadau** | |
| Y dull archwilio | 37 |
| Data ariannol | 39 |
| Profiad cleifion | 45 |

## Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg fel rhan o'r gwaith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) a, lle bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

## Crynodeb

1. Mae gwasanaethau arlwyo mewn ysbytai yn rhan hanfodol o ofal cleifion ac mae prydau bwyd maethlon, o safon, yn gwneud cyfraniad allweddol at y broses o adsefydlu a gwella cleifion. Mae gwasanaethau arlwyo effeithiol yn dibynnu ar gynllunio a chydgysylltu nifer o brosesau'n drwyadl gan gynnwys cynllunio bwydlenni, caffael, cynhyrchu bwyd a dosbarthu prydau bwyd i wardiau a chleifion. Rhaid cael cyfathrebu da ar draws y grwpiau amrywiol o staff sy'n rhan o'r gwaith, gan gynnwys rheolwyr, staff arlwyo, deietegwyr, nyrsys, staff cymorth a phorthorion.
2. Dylai'r canlyniad dymunol fod yn wasanaeth arlwyo hyblyg, cost-effeithiol sy'n cynnig dewis da o brydau bwyd maethlon i ateb gofynion deietegol penodol cleifion. Mae angen i statws maeth cleifion gael ei asesu a'i fonitro'n gywir, a rhoi trefniadau ar waith i helpu cleifion i fwynhau eu prydau bwyd mewn amgylchedd sy'n eu hannog i fwyta.
3. Mae pwysigrwydd bwyd ysbyty i helpu gwellhad cleifion wedi cael ei gydnabod mewn nifer o fentrau gan Lywodraeth y Cynulliad. Y fenter ddiweddaraf yw *Llwybr Gofal Maeth Ysbytai* a datblygiad siart cofnodi bwyd Cymru gyfan i gofnodi cymeriant bwyd a diod. Hefyd, datblygodd Llywodraeth y Cynulliad raglen hyfforddi *Gwella Gofal Maethol* i reolwyr wardiau i gefnogi hyfforddiant lleol. Mae'r mentrau hyn yn cefnogi menter *Rhyddid i Arwain, Rhyddid i Ofalu* a gynlluniwyd i rymuso prif nyrsys wardiau i gael mwy o reolaeth ar ddigwyddiadau ar eu wardiau. Caiff arferion gorau mewn gofal maeth eu gwreiddio ymhellach drwy *Safonau Gofal Iechyd* penodol (Safon 14 – Maeth)[1] a *Safonau Hanfodion Gofal* (Safon 9 – Bwyta ac Yfed)[2].
4. Er bod rhai enghreifftiau calonogol o arfer da'n gysylltiedig ag arlwyo mewn ysbytai ledled Cymru, dangosodd gwaith gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn 2001-02 fod angen ailadrodd y rhain yn ehangach a chryfhau arferion mewn nifer o feysydd. Ers 2001-02, mae data blynyddol ar berfformiad cyfleusterau a gasglwyd gan Stadau Iechyd Cymru wedi tynnu sylw at amrywiadau sylweddol rhwng ysbytai o ran costau dyddiol bwydo claf, a phroblemau parhaus gyda gwastraffu bwyd – gadawyd tua 880,000 o brydau heb eu cyffwrdd yn 2008-09. Awgrymodd data Stadau Iechyd Cymru hefyd fod y broses o gyflwyno arfer da cydnabyddedig fel amser bwyd wedi'i ddiogelu a dadansoddiad maethol o fwydlenni yn anghyson.

---

[1] Llywodraeth y Cynulliad, *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru,* 2010

[2] Llywodraeth y Cynulliad, *Hanfodion Gofal: Canllawiau i Staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol: gwella ansawdd agweddau sylfaenol ar iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion,* 2003

5. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi penderfynu felly ei bod hi'n bryd cynnal gwaith archwilio pellach ar arlwyo mewn ysbytai i adolygu cynnydd ers y gwaith a wnaed gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn 2001-02, ac i archwilio i ba raddau y mae arferion a nodwyd yn *Llwybr Gofal Maeth Ysbytai* yn cael eu cyflwyno.

6. Ceisiodd ein hadolygiad bennu a oedd ysbytai yng Nghymru'n darparu gwasanaethau arlwyo effeithlon sy'n cydymffurfio ag arfer da cydnabyddedig. Edrychodd ein gwaith archwilio ar 'gadwyn fwyd' arlwyo ysbyty o'r gwaith cynllunio a chaffael i ddosbarthu'r bwyd i'r ward a'r cleifion a rheoli amser prydau bwyd.

7. Canolbwyntiodd ein gwaith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) ym mis Mai a mis Mehefin 2010 ar archwilio trefniadau arlwyo yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, Ysbyty Treforys ac Ysbyty Singleton. Mae ein canfyddiadau'n ymwneud yn benodol â'r ysbytai hyn ac yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata ariannol yn ymwneud ag elfennau o'r gwasanaeth arlwyo ar gyfer cleifion a'r gwasanaeth arlwyo nad yw ar gyfer cleifion, arsylwi amser bwyd ar 12 ward (gweler Atodiad 1), adolygu nodiadau achos o gofnodion 60 claf ac arolwg a gasglodd brofiadau 133 o gleifion o fwyd ysbyty. Mae Atodiad 1 yn rhoi manylion pellach am y dull archwilio.

8. Ein casgliad cyffredinol yw bod y gwasanaethau arlwyo lleol yn diwallu anghenion cleifion yn eithaf effeithiol ond gellid gwneud rhagor i safoni'r gwasanaethau arlwyo a gwella profiad cleifion. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd y rhesymau canlynol:

- mae trefniadau cynllunio a rheoli'r gwasanaethau arlwyo yn effeithiol ym mhob ysbyty ar y cyfan ond gellid eu cryfhau drwy waith craffu mwy trylwyr gan y Bwrdd:
  - mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at gysoni'r gwahanol drefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau arlwyo a bydd angen iddo ystyried yr opsiynau sydd ar gael gan ystyried y cyfyngiadau ar adnoddau;
  - mae polisïau a gweithdrefnau priodol o ran arlwyo a maeth yn cael eu datblygu i sicrhau arfer safonol ar draws ysbytai;
  - mae grwpiau amlddisgyblaethol yn gweithio gyda'i gilydd i gynnig trosolwg ac atebion i faterion yn ymwneud â maeth ac arlwyo; ac
  - mae lle i wella ansawdd y wybodaeth y mae'r Bwrdd yn ei derbyn am y risgiau sy'n wynebu'r gwasanaeth, a'i berfformiad.
- mae angen cryfhau trefniadau cynhyrchu bwyd a rheoli costau:
  - mae'r trefniadau caffael yn effeithiol ar y cyfan ond mae cyfleoedd ar gael i leihau nifer y contractau;
  - defnyddir ryseitiau wedi'u costio'n safonol ond ni wnaed asesiad maethol ohonynt;
  - nid yw'r trefniadau cynhyrchu bwyd yn Ysbyty Tywysoges Cymru wedi'u rheoli cystal â rhai Ysbyty Treforys oherwydd y ffordd y caiff prydau cleifion eu harchebu;

- nid yw gwastraff bwyd heb ei weini'n cael ei fonitro'n gyson ar draws yr ysbytai;
  - nid oes dull safonedig o bennu prisiau am wasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion er bod strwythurau prisio gwahaniaethol ar waith ym mhob ysbyty; ac
  - nid oes polisi cytûn ynglŷn â chyfraniad y gwasanaeth arlwyo nad yw ar gyfer cleifion, felly mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi cymhorthdal o £711,000 ar gyfer y gwasanaethau hyn.
- mae'r trefniadau ar gyfer dosbarthu bwyd i'r wardiau a'r cleifion yn effeithiol ar y cyfan ond mae lle i wella profiadau amser bwyd i gleifion;
  - ar y cyfan, mae'r bwyd yn flasus ac wedi'i gyflwyno'n dda ond ar rai wardiau, caiff cleifion sydd angen cymorth i fwyta eu trin yn wahanol;
  - mae'r bwyd yn cael ei weini'n gyflym ac yn effeithlon i'r cleifion, ac mae'r cleifion yn derbyn y pryd o fwyd y gwnaethant ei ddewis;
  - mae staff y ward yn cydymffurfio ag arferion hylendid bwyd sylfaenol er gwaethaf diffyg hyfforddiant ffurfiol;
  - nid yw'r polisi amser bwyd wedi'i ddiogelu yn cael ei ddilyn bob amser; ac
  - nid yw pob claf yn cael cyfle i baratoi ar gyfer amser bwyd.
- mae'r gwasanaethau arlwyo yn ddigon hyblyg i sicrhau bod y rhan fwyaf o gleifion yn derbyn y maeth sydd ei angen arnynt ond mae sgrinio maethol ar adeg eu derbyn yn aml yn anghyflawn:
  - fel rheol, caiff cleifion eu sgrinio ar adeg eu derbyn i ganfod unrhyw risg maethol ond mae'r wybodaeth a gofnodir fel rhan o'r broses sgrinio yn aml yn anghyflawn gyda rhy ychydig o gleifion yn cael eu pwyso neu'n derbyn asesiad iechyd y geg;
  - mae gormod o gleifion, y nodwyd eu bod yn wynebu risg o ddiffyg maeth, heb gynlluniau gofal;
  - ni chafodd ychydig o gleifion y nodwyd eu bod yn wynebu risg uchel o ddiffyg maeth eu hatgyfeirio am asesiad deietegol;
  - mae'r bwydlenni'n rhoi dewis eang o fwyd i ddiwallu anghenion deietegol cleifion ac mae prydau eraill ar gael i gleifion sy'n colli pryd o fwyd ond mae'r byrbrydau sydd ar gael yn fwy cyfyngedig; ac
  - mae cymorth parod ar gael i gleifion sydd angen cymorth amser bwyd.
- er bod yna ymdrech i gasglu barn cleifion, gellid gwneud mwy i gyhoeddi sut mae eu barn yn cyfrannu at welliannau yn y gwasanaeth o ystyried bod boddhad cleifion â'r gwasanaeth yn gymharol isel ar y cyfan:
  - gwneir ymdrech i gasglu barn cleifion ar y gwasanaethau arlwyo ond mae eu cyfraniad i arolygon ansawdd yn gyfyngedig; ac
  - mae llai na hanner y cleifion yn fodlon ag ansawdd y bwyd a ddarperir.

9. Mae pob adran o'r adroddiad manwl sy'n dilyn yn nodi'r arfer da yr oeddem yn edrych amdano wrth i ni wneud ein gwaith maes, a'r hyn a ganfuwyd gennym. Mae'r gwaith hefyd yn seiliedig ar ddadansoddiad manwl o gostau[3] (Atodiad 2) ac arolwg cleifion (Atodiad 3).

## Argymhellion

10. Mae nifer o argymhellion wedi codi o'r adolygiad hwn. Cânt eu rhestru isod.

| **Trefniadau rheoli a chynllunio strategol** | |
|---|---|
| A1 | Datblygu amrywiaeth o ddangosyddion ar gyfer monitro a meincnodi perfformiad y gwasanaethau arlwyo a risgiau posibl i'r gwasanaeth, a chyflwyno adroddiad arnynt i'r Bwrdd o leiaf yn flynyddol, er enghraifft mewn meysydd fel boddhad cleifion, materion yn codi o archwiliadau iechyd yr amgylchedd, gwastraff bwyd, perfformiad ariannol a'r amser mae'n cymryd i weithredu mentrau newydd. |
| A2 | Datblygu cynlluniau ar gyfer safoni arferion arlwyo ar draws yr ysbytai, gan gynnwys:<br>• cytuno ar y modelau cynhyrchu a dosbarthu;<br>• adolygu'r ryseitiau a ddefnyddir ym mhob ysbyty;<br>• asesu maeth yr holl ryseitiau a bwydlenni;<br>• safoni arferion wardiau yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Treforys o ran cofnodi tymheredd bwyd cyn amser bwyd ac os oes angen, cofnodi tymheredd bwyd ar ddiwedd amser bwyd os oes cwynion fod prydau'n oer;<br>• gorchwylio amser bwyd yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Treforys o bryd i'w gilydd er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth bwyd a gwella effeithlonrwydd os oes angen.<br>• sefydlu amserlen o sesiynau blasu yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Treforys sy'n debyg i'r un yn Ysbyty Singleton;<br>• cynnwys staff nyrsio a chleifion yn y sesiynau blasu; a<br>• gwneud mwy o ddefnydd o'r staff nyrsio mewn gwasanaethau bwyd yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot fel sy'n cael ei wneud yn Ysbyty Singleton. |
| A3 | Ymestyn cylch gwaith y Grŵp Llywio Maeth, neu ei is-grwpiau, i gynnwys trosolwg o'r themâu a'r materion sy'n codi o arolygon boddhad cleifion, yr archwiliad Hanfodion Gofal ac Arolygon Cyffredinolrwydd Heintiau. |
| A4 | Llunio proses i alluogi staff y wardiau i gyfrannu at y Grŵp Datblygu Bwyd a Maeth. |

[3] Nid oes data ariannol ar gael ar gyfer Ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn 2008-09 oherwydd trefniadau'r contract Menter Cyllid Preifat (PFI) ar y pryd. O'r herwydd, mae'r data ariannol a gyflwynir drwy'r adroddiad yn ymwneud ag Ysbyty Tywysoges Cymru, Ysbyty Treforys ac Ysbyty Singleton.

| Caffael, cynhyrchu a rheoli costau | |
|---|---|
| A5 | Ceisio safoni contractau arlwyo lleol am yr un nwyddau, neu nwyddau tebyg, hy. un contract i bob ysbyty. |
| A6 | Adolygu strwythurau prisio yn y bwytai i staff/ymwelwyr ac wrth wneud hynny, gwneud penderfyniad clir am lefel y costau sydd i'w hadennill o'r gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion. |
| A7 | Gweithio gyda staff arlwyo a staff nyrsio i wella'r broses o archebu bwyd i gleifion yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Treforys. |
| A8 | Gwella trefniadau ar gyfer monitro gwastraff bwyd heb ei weini, yn enwedig yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Treforys a monitro'r rhesymau dros y gwastraff. |
| **Dosbarthu bwyd i gleifion** | |
| A9 | Sicrhau bod yr holl staff nyrsio sy'n gyfrifol am weini bwyd i gleifion yn cael hyfforddiant a chanllawiau ar y canlynol:<br>• rheoli dognau;<br>• diogelwch a hylendid bwyd sylfaenol;<br>• dillad diogelwch addas, gan gynnwys safoni lliw'r ffedog a ddefnyddir yn ystod amser bwyd; a'r<br>• angen i gydymffurfio â gweithdrefnau ar gyfer cofnodi tymheredd bwyd a beth i'w wneud os nad yw'r tymheredd yn cyrraedd y safonau gofynnol. |
| **Diwallu anghenion maeth** | |
| A10 | Gwella cydymffurfiaeth â sgrinio maethol a chynllunio gofal drwy:<br>• gofnodi gwybodaeth gynhwysfawr am iechyd maethol cleifion ar y ffurflen Asesu Unedig/Asesiad Nyrsio, gan gynnwys gwybodaeth am iechyd y geg;<br>• archwilio'r rhesymau dros fethu â chydymffurfio gyda staff nyrsio;<br>• newid fformat offeryn monitro WAASP i ddangos yn glir beth yw sgôr pob elfen wrth ail-sgrinio cleifion;<br>• atgyfnerthu'r trothwy ar gyfer atgyfeirio cleifion am asesiad deietegol; ac<br>• atgoffa staff nyrsio am bwysigrwydd siartiau bwyd a diod Cymru gyfan a sut y dylid eu llenwi. |
| A11 | Sicrhau bod yr holl staff nyrsio'n gallu dod o hyd i wybodaeth am ofal maethol da yn hwylus, gan gynnwys y gwahanol fathau o ddeietau therapiwtig. |
| A12 | Cymharu i ba raddau y mae nyrsys a deietegwyr yn cytuno (i ba raddau mae graddwyr yn cytuno â'i gilydd) wrth sgorio risg maethol gan ddefnyddio'r offeryn WAASP; os yw'r prawf yn dangos nad oes llawer o gytundeb, yna dylid darparu hyfforddiant gloywi ar ddefnyddio'r offeryn WAASP. |

| Profiad cleifion | |
| --- | --- |
| A13 | Gwella profiad y claf drwy:<br>• barhau i hyrwyddo'r polisi amser bwyd wedi'i ddiogelu rhwng grwpiau ehangach o staff;<br>• sicrhau bod cleifion yn cael eu trin â pharch drwy weini prydau bwyd ar blatiau lle bo'n briodol;<br>• gweithio gyda chynrychiolwyr cyswllt cleifion a chleifion i asesu ansawdd gwasanaethau arlwyo; a<br>• rhoi ystyriaeth i'r safbwyntiau llai ffafriol a fynegwyd gan gleifion a ymatebodd i'n harolwg, a mynd i'r afael â'r materion hynny. |
| A14 | Darparu gwybodaeth eglur am y gwasanaethau arlwyo a maeth i gleifion gan nodi'r canlynol:<br>• y trefniadau archebu bwyd yn y gwahanol ysbytai, gan gynnwys y defnydd o fwydlenni;<br>• nodi bod byrbrydau ar gael a sut i'w harchebu;<br>• pam mae cleifion yn cael eu hannog i beidio â dod â'u bwyd eu hunain i ysbytai; a<br>• pham nad oes rhai eitemau bwyd ar gael drwy'r amser, fel llaeth sgim neu dost. |

## Trefniadau rheoli a chynllunio strategol

11. ***Mae trefniadau rheoli a chynllunio strategol y gwasanaethau arlwyo yn effeithiol ym mhob ysbyty ar y cyfan ond gellid eu cryfhau drwy waith craffu mwy trylwyr gan y Bwrdd. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:***

- ***mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at gysoni'r gwahanol drefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau arlwyo a bydd angen iddo ystyried yr opsiynau sydd ar gael gan ystyried y cyfyngiadau ar adnoddau;***
- ***mae polisïau a gweithdrefnau priodol o ran arlwyo a maeth yn cael eu datblygu i sicrhau arfer safonol ar draws ysbytai;***
- ***mae grwpiau amlddisgyblaethol yn gweithio gyda'i gilydd i gynnig trosolwg ac atebion i faterion yn ymwneud â maeth ac arlwyo; ac***
- ***mae lle i wella ansawdd y wybodaeth y mae'r Bwrdd yn ei derbyn am y risgiau sy'n wynebu'r gwasanaeth, a'i berfformiad.***

12. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad.

**Trefniadau rheoli a chynllunio strategol**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Gwybodaeth bellach |
|---|---|---|
| **Cynllunio Gwasanaeth** | | |
| Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaethau a pholisïau clir ar arlwyo a maeth | ✓/✗ | Ar adeg ein harchwiliad, roedd y Bwrdd Iechyd yn ystyried nifer o opsiynau ar gyfer cysoni trefniadau ei wasanaethau arlwyo. Ar hyn o bryd, mae ganddo dri model gwahanol o gynhyrchu bwyd a thri model gwahanol o'u dosbarthu i'r wardiau, sef:<br>• coginio prydau ffres yn Ysbyty Tywysoges Cymru a'u gweini gan staff nyrsio;<br>• prydau wedi'u coginio a'u hoeri o ffynhonnell allanol yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot a'u gweini gan staff arlwyo ar y ward; a<br>• phrydau wedi'u coginio a'u rhewi yn Ysbyty Treforys ac Ysbyty Singleton; gweinir y prydau gan staff nyrsio yn Ysbyty Treforys ac mae staff arlwyo ar y ward, gyda chymorth staff nyrsio, yn gweini bwyd i'r cleifion yn Ysbyty Singleton.<br>Dechreuodd yr hen Ymddiriedolaeth GIG Abertawe Bro Morgannwg gysoni ei systemau cynhyrchu bwyd cyn diwygio'r GIG yn hydref 2009. Ei nod yw symud i system coginio a rhewi ym mhob ysbyty; bydd amserlen y newid yn dibynnu ar faint o arian cyfalaf fydd ar gael ac ar benderfynu pa fodel fydd y mwyaf cost-effeithiol o ystyried capasiti presennol a chyfyngiadau ar adnoddau e.e. unedau |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Gwybodaeth bellach |
|---|---|---|
| | | cynhyrchu unigol neu uned ganolog. Ar adeg ein harchwiliad, roedd y pwyllgor arlwyo'n paratoi papur i nodi'r opsiynau ar gyfer y Bwrdd Gweithredol. |
| | | Sefydlwyd y pwyllgor arlwyo yn hydref 2009 i safoni arferion a gweithdrefnau arlwyo yn yr ysbytai. Mae'n gyfrifol am ddatblygu strategaeth arlwyo a gweithredu safonau maethol cenedlaethol. Bydd yn adolygu bwydlenni cleifion, gan gynnwys prydau arbennig, fel bwydydd o ansawdd wedi'i addasu, a phrosesau archebu bwyd. Bellach, mae un rheolwr yn gyfrifol am y gwasanaethau arlwyo drwy'r Bwrdd Iechyd ac yn cadeirio'r pwyllgor, sy'n adrodd i'r Grŵp Datblygu Bwyd a Maeth.<br>Roedd drafft cyntaf y Fframwaith Maeth ac Arlwyo wedi'i baratoi ar adeg ein harchwiliad ond heb ei ddosbarthu'n eang. Mae'r Fframwaith yn pennu nodau ac amcanion ar gyfer y gwasanaethau arlwyo a maeth, y safonau i'w cyflawni a swyddogaethau a chyfrifoldebau gwahanol grwpiau o staff o ran darparu gwasanaeth arlwyo a maeth. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys dangosyddion perfformiad manwl yn ôl y safonau nac yn nodi sut y caiff cydymffurfiaeth neu berfformiad eu hasesu. Yn y cyfamser, mae trefniadau ar y gweill i gysoni polisïau arlwyo a maeth i gefnogi'r fframwaith. |
| Mae'r Strategaeth yn nodi'r dull mwyaf effeithlon a chost-effeithiol o gynhyrchu bwyd | ✓/✗ | Ar hyn o bryd, mae'r pwyllgor arlwyo'n ystyried y model mwyaf cost-effeithiol ar gyfer y gwasanaethau arlwyo fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ei strategaeth, yn ogystal â'r math o wasanaeth ar lefel y ward i weini bwyd i gleifion. |
| Mae cynllun y fwydlen yn adlewyrchu'r strategaeth a'r polisi | ✓ | Caiff bwydlenni cleifion eu hadolygu fel rhan o'r gwaith safoni ledled y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys dadansoddi maeth. Ond mae'r gwasanaethau arlwyo hefyd yn profi newidiadau i'r fwydlen mewn ymateb i newidiadau mewn cymdeithas, megis darparu swper ysgafn yn lle ail bryd bwyd wedi'i goginio gyda'r nos. |
| Mae deietegwyr a chlinigwyr yn cyfrannu'n llawn at y gwaith o ddatblygu polisi a strategaeth a chynllunio bwydlenni | ✓ | Mae staff deietegol a chlinigwyr eraill yn cyfrannu at grwpiau amlddisgyblaethol ar fwyd a maeth, lle trafodir datblygiadau strategol a materion gweithredol fel cynllunio bwydlenni. |
| Tystiolaeth o gynllunio gweithlu yn ôl y galw am staff arlwyo | ✓ | Roedd rheolwyr arlwyo'n hyderus bod y trefniadau arlwyo presennol yn hyblyg ac yn adlewyrchu anghenion y gwasanaeth. Er enghraifft, newidiodd rhai o staff y gegin yn Ysbyty Treforys eu patrwm gweithio yn gynharach eleni gan mai dim ond ar ddyddiau'r wythnos y mae'r brif uned gynhyrchu coginio a rhewi yn gweithredu bellach.<br>Hefyd, bu'r rheolwyr arlwyo'n trafod beth fyddai'r goblygiadau i'r gweithlu o gyflwyno'r system goginio a rhewi yn Ysbyty Tywysoges Cymru a'r goblygiadau ariannol o gyflwyno gwasanaeth staff penodedig i weini ar y ward yn Ysbyty Treforys ac Ysbyty Tywysoges Cymru. |

| Trefniadau rheoli | | |
|---|---|---|
| Mae atebolrwydd gweithredol dros arlwyo wedi'i nodi'n glir | ✓ | Rhennir y cyfrifoldeb gweithredol dros y gwasanaethau arlwyo a maeth. Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol, Cymuned a Gwasanaethau Iechyd Meddwl sydd â chyfrifoldeb dros y gwasanaethau arlwyo a'r Cyfarwyddwr Nyrsio sydd â chyfrifoldeb dros faeth. |
| Mae'r Bwrdd yn derbyn digon o wybodaeth am berfformiad ac ymarfer mewn perthynas ag arlwyo a maeth | ✗ | Ni welsom unrhyw dystiolaeth fod y Bwrdd wedi rhoi ystyriaeth ehangach i berfformiad y gwasanaethau maeth ac arlwyo, ac eithrio'r elfennau hynny yn y Safon Gofal Iechyd ar faeth a'r Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd a'i dilynodd.<br>Ym mis Gorffennaf 2010, gofynnwyd i'r Bwrdd dderbyn a nodi adroddiad y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch o'i gyfarfod ym mis Mehefin lle cyflwynwyd yr Adroddiad Maeth Blynyddol. Er bod yr adroddiad yn nodi'r materion a drafodwyd, sef cynnydd yn y gwaith o ddatblygu fframwaith strategol ar gyfer maeth, prosesau asesu risg maethol a rheoli, y gwasanaethau bwyd a dewis o fwyd/bwydlenni, nid oedd yn meincnodi/tynnu sylw at faterion allweddol yn ymwneud â pherfformiad neu risgiau, megis boddhad cleifion, materion yn codi o archwiliadau iechyd yr amgylchedd, gwastraff bwyd na pherfformiad ariannol. Dylai'r Bwrdd ystyried ehangu cwmpas ei adroddiadau ar faeth ac arlwyo i gynnwys perfformiad yn ôl y safonau mewn perthynas â'r fframwaith maeth ac arlwyo a risgiau posibl i'r gwasanaeth. |
| Mae grŵp amlddisgyblaethol wedi'i sefydlu i oruchwylio'r modd y mae'r gwasanaeth arlwyo yn cael ei gyflawni | ✓ | Sefydlwyd Grŵp Llywio Maeth amlddisgyblaethol ac mae'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio. Mae'r grŵp yn gyfrifol am gydgysylltu'r gwasanaethau maeth ac arlwyo a datblygu strategaeth a monitro perfformiad yn ôl y safonau maeth. Mae'r Grŵp Llywio Maeth yn adrodd i'r Bwrdd drwy'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.<br>Mae gan y Grŵp Llywio Maeth dri is-grŵp gweithredol gydag aelodaeth amlddisgyblaethol, sef:<br>1. Grŵp Datblygu Bwyd a Maeth<br>2. Grŵp Cymorth Maethol Clinigol<br>3. Grŵp Maeth Pediatrig<br>Mae'r is-grwpiau gweithredol yn cyflawni rhaglen waith sy'n seiliedig ar flaenoriaethau'r gwasanaeth. Er enghraifft, roedd blaenoriaethau'r Grŵp Datblygu Bwyd a Maeth yn 2009 yn cynnwys safoni sgrinio maethol, gweithredu siart bwyd Cymru gyfan a chyflwyno amser bwyd wedi'i ddiogelu.<br>Fodd bynnag, mynegwyd pryder gan staff nyrsio ar y wardiau na chawsant eu gwahodd i gyfrannu at y Grŵp Datblygu Bwyd a Maeth a gallent gofio adeg pan oedd prif nyrsys wardiau'n cyfrannu at grwpiau llywio maethol yn y cyrff blaenorol. Mae staff wardiau'n teimlo fod cynrychiolaeth o'r wardiau ar weithgorau wedi gostwng wrth i'r sefydliad dyfu. |

| Trefniadau rheoli (parhad) | | |
|---|---|---|
| Penodwyd nyrs arwain i helpu i weithredu'r strategaeth a sicrhau arferion maeth da | ✓ | Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Nyrsio Cyswllt, Safonau ac Ymarfer Proffesiynol, yw'r gwaith hwn. |
| Mae disgrifiadau swyddi ac ystod cyflogau i staff arlwyo wedi'u cysoni ledled y Bwrdd Iechyd | ✗ | Ar adeg ein harchwiliad, dywedodd rheolwyr wrthym nad oedd y trefniadau ar gyfer cysoni disgrifiadau swyddi a chyflog staff arlwyo wedi digwydd. Rhoddwyd blaenoriaeth i gysoni'r trefniadau ar gyfer staff cyfleusterau eraill, fel y porthorion. Ond bydd y trefniadau hyn yn cael eu hystyried fel rhan o strategaeth gyffredinol y Bwrdd Iechyd ar gyfer y gwasanaethau arlwyo. |
| Mae lefel absenoldebau oherwydd salwch o fewn y lefelau derbyniol ac yn cael eu rheoli'n dda. | ✓ | Cadarnhaodd rheolwyr fod trefniadau effeithiol ar waith i reoli a monitro absenoldeb oherwydd salwch. |

## Caffael, cynhyrchu a rheoli costau

13. ***Mae angen cryfhau trefniadau cynhyrchu bwyd a rheoli costau. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:***
    - ***mae'r trefniadau caffael yn effeithiol ar y cyfan ond mae cyfleoedd ar gael i leihau nifer y contractau;***
    - ***defnyddir ryseitiau wedi'u costio'n safonol ond ni wnaed asesiad maethol ohonynt;***
    - ***nid yw'r trefniadau cynhyrchu bwyd yn Ysbyty Tywysoges Cymru wedi'u rheoli cystal â rhai Ysbyty Treforys oherwydd y ffordd y caiff prydau cleifion eu harchebu;***
    - ***nid yw gwastraff bwyd heb ei weini'n cael ei fonitro'n gyson ar draws ysbytai;***
    - ***nid oes dull safonedig o bennu prisiau am wasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion er bod strwythurau prisio gwahaniaethol ar waith ym mhob ysbyty; ac***
    - ***nid oes polisi cytûn ynglŷn â chyfraniad y gwasanaeth arlwyo nad yw ar gyfer cleifion, felly mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi cymhorthdal o £711,000 ar gyfer y gwasanaethau hyn.***
14. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad.

**Caffael, cynhyrchu a rheoli costau**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Gwybodaeth bellach |
|---|---|---|
| **Caffael** | | |
| Mae'r bwyd yn cael ei gaffael gan gyflenwyr a gymeradwywyd, yn unol â threfniadau a nodwyd yn Strategaeth Gaffael Cymru Gyfan y GIG | ✓ | Mae trefniadau caffael y Bwrdd Iechyd ar gyfer arlwyo naill ai'n defnyddio Cyflenwadau Iechyd Cymru, contractau Cymru gyfan neu gontractau Cadwyn Gyflenwi'r GIG. Hefyd, gall staff arlwyo gaffael cynnyrch yn lleol os nad ydynt ar gael drwy'r prif gontractau a chaiff contractau lleol eu llunio gan adran gaffael y Bwrdd Iechyd.<br>Ar hyn o bryd, mae nifer o wahanol gyflenwyr yn darparu'r un cynnyrch neu gynnyrch tebyg i'r gwahanol ysbytai, er enghraifft deiet o ansawdd wedi'i addasu. Rhan o'r gwaith o gysoni gwahanol fodelau gwasanaeth arlwyo yw lleihau neu safoni'r gwahanol gontractau lleol am yr un cynnyrch neu gynnyrch tebyg, a sicrhau arbedion ariannol o ganlyniad. |
| Mae trefniadau caffael cynaliadwy ar waith | ✓ | Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu ei bolisi caffael cynaliadwy ei hun ond mae'r contractau Cymru gyfan a chontractau Cyflenwadau Iechyd Cymru yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad. |
| Mae'r trefniadau caffael yn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r bwydlenni a gynlluniwyd | ✓ | Mae'r trefniadau presennol yn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r fwydlen gydag amserlenni cyflenwi priodol i gwrdd â galw'r broses gynhyrchu. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Gwybodaeth bellach |
|---|---|---|
| **Cynhyrchu** | | |
| Mae cleifion yn archebu prydau lai na 24 awr ymlaen llaw. | ✓/✗ | Mae systemau archebu prydau yn amrywio o un ysbyty i'r llall oherwydd y gwahanol fodelau arlwyo sydd ar waith. Fodd bynnag, gallai'r trefniadau yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Treforys fod yn fwy effeithiol.<br><br>Dim ond gofyn am nifer o brydau i gyfateb i nifer y cleifion ar y ward fydd y staff nyrsio yn Ysbyty Tywysoges Cymru heb fawr o ddewis i gleifion, os o gwbl. Hefyd, dywedodd staff nyrsio wrthym mai ychydig a wyddent am fwydlen y diwrnod cyn nodi nifer y prydau oedd eu hangen, a gallai hyn olygu nad oedd rhai cleifion yn cael bwyd addas i'w hanghenion. Hefyd, mae'r ffaith fod cymaint o fynd a dod ar rai wardiau'n cyfrannu at wastraff bwyd heb ei weini neu at fwyd yn dod i ben cyn gorffen gweini i bawb. Roedd yr adran arlwyo'n ceisio gwella'r dull o archebu prydau cleifion ac ar adeg ein harchwiliad, roeddent yn treialu system ar Ward 4 lle roedd staff arlwyo'n casglu archebion cleifion. Os bydd yn llwyddiannus, roedd y rheolwr arlwyo'n bwriadu cyflwyno'r model hwn ar wardiau eraill. Roedd rhai o'r sylwadau gan gleifion a ymatebodd i'n harolwg yn cwyno nad oedd bwydlen ar gael gan fod bwydlenni'n arfer bod ar gael yn y gorffennol.<br><br>Roedd Ysbyty Treforys wedi cyflwyno rôl goruchwyliwr cyswllt wardiau sy'n gyfrifol am gysylltu'n ddyddiol â phob ward i gasglu nifer y prydau sydd eu hangen i gleifion. Defnyddir y niferoedd hyn i ail-baratoi prydau ar gyfer y nifer cywir o gleifion. Fodd bynnag, nid yw'r cleifion yn cael dewis pryd o fwyd. Yn lle hynny, byddai'r gwahanol brydau'n cael eu cynhyrchu ar sail defnydd blaenorol, a'r cleifion yn dewis beth i'w fwyta pan fo'r bwyd yn cael ei weini. Pan nad yw'r goruchwyliwr cyswllt ar ddyletswydd, mae staff nyrsio'n rhoi nifer y prydau sydd eu hangen i'r adran arlwyo, a dywedwyd wrthym y gallai hyn fod sawl diwrnod ymlaen llaw. Yn y cyfamser, ni fydd unrhyw newidiadau yn nifer y cleifion yn cael eu hystyried.<br><br>Ar adeg ein harchwiliad, roedd system newydd o archebu swper yn cael ei threialu ar Ward J yn Ysbyty Treforys, lle roedd staff nyrsio'n gofyn i gleifion ddewis rhwng pryd poeth neu gawl a brechdan. Nod yr arbrawf oedd cynnig dewis i gleifion a thrwy hynny, leihau gwastraff bwyd heb ei weini. Os yw'r prawf yn llwyddiannus, mae'r rheolwr arlwyo'n bwriadu ymestyn y system i wardiau eraill amser swper a'i gyflwyno'n raddol i'r gwasanaeth amser cinio. O gymharu nifer y dognau a archebwyd a nifer y dognau sy'n cael eu cynhyrchu ar gyfer y ward fel arfer, gwelwyd gostyngiad o 40% yn y bwyd a gâi ei ddosbarthu i'r ward ac roedd gwastraff bwyd heb ei weini yn 8% dros bedair wythnos.<br><br>Mae staff arlwyo ar y ward yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Singleton yn cymryd archebion cleifion tua |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Gwybodaeth bellach |
|---|---|---|
| | | teirawr cyn amser bwyd o'r fwydlen ar gyfer y diwrnod hwnnw, ac yn ailbaratoi'r swm priodol o fwyd. Fodd bynnag, nid oedd un claf yn ystyried y trefniadau fel cyfle i 'archebu' bwyd, a dywedodd: '*Ches i ddim cynnig bwydlen i ddewis ohoni, dim ond dewis o'r troli.*' |
| Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu system arlwyo gyfrifiadurol i hwyluso'r gwaith o gynllunio a rheoli cynhyrchiant | ✓/✗ | Mae'r ysbytai'n defnyddio systemau papur wedi'u hen sefydlu gyda thaenlenni Excel ar gyfer cynllunio a rheoli cynhyrchu.<br>Mae'r cylch cynhyrchu yn Ysbyty Treforys ac Ysbyty Singleton yn adlewyrchu cylch y fwydlen ac mae'r meintiau cynhyrchu'n cael eu seilio ar isafswm ac uchafswm lefelau stoc. Yn Ysbyty Tywysoges Cymru, mae cynhyrchiant dyddiol yn adlewyrchu'r fwydlen ar gyfer y diwrnod a nifer y prydau bwyd i gleifion mewnol a archebir gan staff y wardiau.<br>Yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, mae bwyd cleifion yn cael ei archebu gan Tillery Valley Foods yn seiliedig ar gylch y fwydlen gyda meintiau'n amrywio yn ôl niferoedd yr wythnosau blaenorol. |
| Defnyddir bwydlenni safonol wedi'u costio er mwyn sicrhau cysondeb o ran ansawdd a chost | ✓ | Mae pob ysbyty'n defnyddio ei fwydlenni safonol ei hun wedi'u costio. |
| Defnyddir ryseitiau wedi'u gwerthuso o ran maeth | ✗ | Mae'r Bwrdd Iechyd ar ei hôl hi o gymharu â byrddau iechyd eraill Cymru yn y gwaith o gynnal dadansoddiad maethol o ryseitiau a bwydlenni. Gwerthuso cynnwys maethol yr holl fwydlenni yw un o flaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd ond mae'n dibynnu ar allu'r adran arlwyo a'r adran ddeieteg i ymgymryd â'r gwaith.<br>Caiff prydau sy'n dod o ffynhonnell allanol eu hasesu'n faethol, fel y rhai a gyflenwir gan Tillery Valley Foods i Ysbyty Castell-nedd Port Talbot a Mr Gills, sy'n cyflenwi deietau o ansawdd wedi'i addasu. |
| Mae cynllun cynhyrchu ar waith i gyfeirio tasgau'r gegin | ✓ | Mae cynlluniau cynhyrchu ar waith, yn seiliedig ar gylch pythefnos y fwydlen yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Ysbyty Treforys ac Ysbyty Singleton. Yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, darparwr allanol sy'n cyflenwi prydau cleifion. |
| Mae mesurau rheoli dognau ar waith ac yn cael eu cefnogi gan hyfforddiant | ✓/✗ | Mae'r gwaith o reoli dognau wedi'i sefydlu'n dda yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Singleton gyda maint dogn yn cael ei bennu gan faint y ffoiliau bwyd. Caiff rheoli dognau ei fonitro gan oruchwylwyr arlwyo sy'n ymweld â wardiau yn ystod amser bwyd.<br>Staff nyrsio sy'n gyfrifol am roi bwyd ar blatiau a'i weini i gleifion yn Ysbyty Treforys ac Ysbyty Tywysoges Cymru. Yn Ysbyty Treforys, roedd y staff nyrsio yn gwybod sut i reoli dognau, yn enwedig faint o ddognau a geid fel arfer o'r ddysgl weini. Yn Ysbyty Tywysoges Cymru, roedd staff nyrsio'n llai hyderus ynglŷn â maint dogn a byddai staff y |

| | | |
|---|---|---|
| | | wardiau ar eu hennill o gael o arweiniad gan yr adran arlwyo, yn debyg i'r hyn a roddir i staff nyrsio yn Ysbyty Treforys.<br><br>Canfu ein harolwg cleifion:<br><br>• fod traean (34%) o'r cleifion yn cael dewis maint eu dogn bob amser ond nad oedd lleiafrif mawr (39%) yn cael gwneud hynny o gwbl; ledled Cymru roedd y ffigurau'n 46% a 27% yn eu trefn; a<br>• bod dros ddwy ran o dair (69%) o'r cleifion yn dweud eu bod wedi cael digon i'w fwyta ac roedd un o bob wyth (13%) wedi cael gormod o gymharu â'r cyfartaledd drwy Gymru (73% a 13%). |
| Mae ansawdd bwyd yn cael ei fonitro ar gamau allweddol yn y broses gynhyrchu | ✓/✗ | Mae nifer o drefniadau ar waith i fonitro ansawdd bwyd ar wahanol gamau o'r broses gynhyrchu.<br><br>Hefyd, mae pob gwasanaeth arlwyo yn cynnal nifer o wahanol weithgareddau i asesu ansawdd y prydau a gaiff eu gweini i gleifion. Er enghraifft, bydd goruchwylwyr arlwyo'n monitro'r bwyd sy'n cael ei ailbaratoi gan staff arlwyo ar y ward yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Singleton yn rheolaidd i sicrhau bod y bwyd yn cael ei ailbaratoi'n gywir a'i fod yn edrych yn flasus.<br><br>Ar y llaw arall, fel rheol ni fyddai staff nyrsio yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Treforys yn cael eu goruchwylio amser bwyd i asesu ansawdd eu gwaith yn gweini prydau nac i sicrhau bod gweithdrefnau diogelwch bwyd yn cael eu cynnal.<br><br>Yn Ysbyty Singleton, mae staff arlwyo'n defnyddio amserlen dreigl o sesiynau blasu i sicrhau bod y fwydlen gyfan yn cael ei samplu'n rheolaidd. Caiff prydau eu sgorio o sero ('gwael iawn') i 10 ('rhagorol') am flas, ymddangosiad, addasrwydd, maint dogn ac ansawdd. Caiff y canfyddiadau eu defnyddio i wella ansawdd y bwyd, er enghraifft drwy roi hyfforddiant eto ar brosesau ailbaratoi i gynorthwywyr arlwyo ar y ward neu drwy drafod â phrif gogyddion er mwyn diwygio ryseitiau neu fwydlenni. Gellid cryfhau'r broses fonitro ansawdd drwy gynnwys cleifion a staff nyrsio yn y sesiynau blasu.<br>Hefyd, bydd staff arlwyo a staff deietegol yn Ysbyty Singleton yn cynnal prawf blas ar sampl o bryd enghreifftiol yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd yr un safon ddisgwyliedig o ran blas, ansawdd, ymddangosiad ac addasrwydd i'r grŵp cleifion.<br>Byddai'r tri ysbyty arall ar eu hennill o gael cynlluniau ansawdd tebyg. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Gwybodaeth bellach |
|---|---|---|
| **Diogelwch bwyd** | | |
| Mae trefniadau cadarn ar waith i sicrhau diogelwch bwyd (ee archwilio tymheredd bwyd) | ✓ | Mae tymheredd bwyd yn cael ei fonitro yn ystod y broses gynhyrchu yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Ysbyty Treforys ac Ysbyty Singleton a chofnodion yn cael eu cadw yn unol â'r gofynion deddfwriaethol. Mae staff y gegin yn Ysbyty Tywysoges Cymru yn archwilio tymheredd eitemau bwyd cyn i'r troliau gweini bwyd wedi'i ailbaratoi adael y gegin.<br>Roedd staff arlwyo ar y ward yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Singleton yn monitro ac yn cofnodi tymheredd bwydydd ar ddiwedd y cylch ailbaratoi ac yn parhau'r broses goginio nes cyrraedd y tymheredd cywir. |
| Mae polisi Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP) ar waith | ✓ | Mae gwahanol systemau Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol ar waith yn y pedwar ysbyty, sy'n adlewyrchu'r gwahanol ddulliau gweithredu. Mae'r HACCP yn cael eu hadolygu'n unol ag argymhellion a wneir gan Swyddog Iechyd yr Amgylchedd. |
| Mae'r cyfleusterau arlwyo yn cael eu harchwilio'n rheolaidd gan swyddogion iechyd yr amgylchedd lleol | ✓ | Caiff cyfleusterau'r Bwrdd Iechyd eu harchwilio'n rheolaidd gan dri awdurdod lleol. Ni chyhoeddwyd unrhyw hysbysiadau mawr o fethu â chydymffurfio yn sgil ymweliadau diweddaraf y Swyddogion.<br>Gwelai'r rheolwyr arlwyo archwiliadau Iechyd yr Amgylchedd fel ffordd o wella prosesau a gweithdrefnau yn barhaus. |
| Rhoi camau ar waith mewn ymateb i argymhellion Swyddog Iechyd yr Amgylchedd | ✓ | Mae'r rhan fwyaf o gamau gweithredu sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r gyfraith yn cael eu rhoi ar waith ar unwaith gan y staff arlwyo. Mae rheolwyr arlwyo yn Ysbyty Singleton ac Ysbyty Treforys yn paratoi cynlluniau gweithredu mewn ymateb i'r archwiliadau hyn er mwyn monitro cynnydd.<br>Caiff gorchmynion prynu eu cyflwyno lle mae angen i eraill gyflawni gwaith adfer, fel paentio neu osod lloriau newydd. Caiff achos busnes ei baratoi lle bydd angen gwariant cyfalaf er mwyn cael cyfarpar newydd. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Gwybodaeth bellach |
|---|---|---|
| **Rheoli costau** | | |
| Mae system arlwyo gyfrifiadurol ar waith i gefnogi'r gwaith o reoli a monitro'r gwasanaeth | ✓/✗ | Nid oes system gwbl integredig ar waith. Yn lle hynny, dibynnir yn helaeth ar systemau papur a thaenlenni Excel syml i gefnogi rheoli a monitro'r gwasanaeth. |
| Mae cost y gwasanaeth arlwyo yn wybyddus ac yn cael ei fonitro | ✓ | Rhoddir sylw ar wahân i'r gwasanaethau cleifion mewnol a gwasanaethau bwyty i staff/ymwelwyr a chaiff perfformiad ei fonitro'n fisol ochr yn ochr â'r cyllidebau. Mae staff arlwyo a staff cyllid yn mynd ati i archwilio amrywiant mewn cyllidebau, gwariant ac incwm.<br><br>Cost gros y gwasanaethau arlwyo yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Ysbyty Treforys ac Ysbyty Singleton oedd £7.49 miliwn yn 2008-09 gyda gwasanaethau arlwyo i gleifion yn ddwy ran o dair (£4.92 miliwn) o'r gwariant. Nid oes gwybodaeth gymharol ar gael ar gyfer Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2008-09 gan fod y gwasanaethau arlwyo'n rhan o'r contract Menter Cyllid Preifat (PFI) cyffredinol ar y pryd.<br><br>Staffio sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o gostau'r gwasanaethau arlwyo i gleifion a rhai nad ydynt yn gleifion ac maent bron yn dair rhan o bump (57%) o'r gwariant, gyda nwyddau'n 36% o'r gwariant. Fodd bynnag, mae amrywiad sylweddol rhwng y tri ysbyty (Gweler Atodiad 2).<br>Roedd cost gyffredinol y gwasanaethau arlwyo yn cael ei wrthbwyso gan incwm a gynhyrchodd y gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion. Roedd costau net cyfartalog fesul diwrnod claf yn amrywio rhwng y tri ysbyty gyda chostau Ysbyty Singleton (£14.95) yn sylweddol uwch na rhai Ysbyty Tywysoges Cymru (£10.76) ac Ysbyty Treforys (£9.06). |
| Mae gwastraff bwyd ar wardiau'n cael ei fonitro (prydau bwyd heb eu gweini a gwastraff ar blatiau) | ✓/✗ | Mae gan yr ysbytai drefniadau gwahanol ar gyfer monitro gwastraff bwyd heb ei weini. Roedd staff arlwyo ar y ward yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Singleton yn monitro gwastraff heb ei weini ar ôl pob amser bwyd. Ni châi gwastraff ar blatiau ei gofnodi ond byddai staff arlwyo ar y ward yn gofyn i gleifion pam nad oeddent wedi bwyta'u pryd ac yn mynegi unrhyw bryderon wrth y rheolwr arlwyo neu'r brif nyrs, os yn briodol.<br>Yn 2009-10, roedd cyfraddau gwastraff ar y wardiau o brydau heb eu gweini yn 8% yn Ysbyty Singleton, neu 28 o brydau cleifion bob diwrnod. Cost amcangyfrifedig y gwastraff heb ei weini oedd £8,000 y flwyddyn. Nid oedd ffigurau gwastraff ar gael ar gyfer Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2009-10 gan fod y gwasanaeth yn dal i gael ei ddarparu o dan y contract PFI.<br>Roedd staff y gegin yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Treforys yn hapfonitro gwastraff heb ei weini wrth i'r troliau gweini bwyd wedi'i ailbaratoi gael eu dychwelyd i'r gegin ar |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Gwybodaeth bellach |
|---|---|---|
| | | ôl amser bwyd. Yn Ysbyty Treforys, roedd gwastraff heb ei weini yn 4% yn 2009-10, neu 72 o brydau cleifion y dydd. Roedd cost gwastraff heb ei weini yn £21,000 y flwyddyn. Nid oedd amcangyfrifon o gyfraddau a chostau gwastraff cyffredinol ar gael ar gyfer Ysbyty Tywysoges Cymru. |
| | | Gwelsom fod mwy o wastraff heb ei weini ar y dyddiau y buom yn arsylwi ar wardiau nag a gâi ei gofnodi fel rheol. Roedd cyfradd gwastraff cyffredinol yn 13%, a'r ysbytai unigol yn amrywio fel hyn:<br>• 11% yn Ysbyty Tywysoges Cymru<br>• 9% yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot<br>• 12% yn Ysbyty Treforys<br>• 21% yn Ysbyty Singleton<br>Mae'r staff arlwyo yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Treforys hefyd yn ailbaratoi nifer o brydau dros ben rhag ofn bod angen rhagor o brydau cleifion. Os nad oes angen y prydau hyn ar y cleifion yn Ysbyty Treforys, cânt eu gwerthu yn y bwytai i staff/ymwelwyr.<br>Hefyd, amcangyfrifodd ein harchwiliad lefel y gwastraff ar blatiau,[4] hy, bwyd a adawyd ar y plât am na chafodd ei fwyta gan y claf. Roedd gwastraff ar blatiau yn 16% (neu'n un o bob chwe phryd) ond amrywiai'n sylweddol rhwng yr ysbytai:<br>• 9% yn Ysbyty Tywysoges Cymru<br>• 20% yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot<br>• 10% yn Ysbyty Treforys<br>• 24% yn Ysbyty Singleton<br>Mae'r rhesymau dros wastraff ar blatiau yn gymhleth. Bydd cyflwr meddygol claf a'i oedran yn dylanwadu ar archwaeth y claf, blas y bwyd a faint y mae'n gallu'i fwyta. |

[4] Mesurwyd gwastraff ar blatiau drwy wrthdroi canllawiau dogfennau asesu maeth yn *Siart Cofnodi Bwyd Cymru Gyfan*. Er enghraifft, byddai pryd o fwyd y cofnodwyd bod 75 y cant ohono wedi'i fwyta at ddibenion monitro maeth yn cyfateb i wastraff o 25 y cant ar blatiau.

| **Rheoli costau (parhad)** | | |
|---|---|---|
| Mae yna ddull penodedig o sicrhau cymhorthdal/cyfraniad am wasanaethau nad ydynt ar gyfer cleifion | ✘ | Nid oes dull penodedig cyffredinol o sicrhau cyfraniad am wasanaethau nad ydynt ar gyfer cleifion i wrthbwyso neu adennill costau arlwyo. Dywedodd staff arlwyo wrthym mai eu nod yw adennill costau bwyd a defnyddiau traul.<br>Mae gan bob gwasanaeth arlwyo darged incwm sy'n cael ei gario drosodd bob blwyddyn a'i godi i gynnwys chwyddiant. Er bod disgwyl i'r gwasanaethau arlwyo gynhyrchu incwm, mae gwneud hynny'n mynd yn fwy a mwy anodd. Honnir bod mwy o staff yn dod â'u bwyd eu hunain i'r gwaith, mae llai o alw am letygarwch mewnol ac mae gweithredu polisi peiriannau gwerthu GIG Cymru yn lleihau incwm o werthiannau peiriannau gwerthu.<br>Ni chynhelir ymarferion manwl rheolaidd i edrych ar gostau ac elw y gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion oni bai bod menter newydd yn cael ei chyflwyno.<br>Yn 2008-09, cynhyrchodd Ysbyty Tywysoges Cymru, Ysbyty Treforys ac Ysbyty Singleton dros £1.85 miliwn o'r gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion, sef y bwyty i staff/ymwelwyr, lletygarwch a pheiriannau gwerthu. Er bod incwm yn gwrthbwyso cost gros y gwasanaethau arlwyo, roedd yn ddigon i adennill 72% o gyfanswm cost y gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion. Mae'n golygu bod y gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion yn cael cymhorthdal o £711,204 gan y Bwrdd Iechyd. |
| Mae yna bolisi i brisio prydau nad ydynt ar gyfer cleifion | ✘ | Mae'r broses o brisio prydau nad ydynt ar gyfer cleifion yn amrywio yn y pedwar ysbyty ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo adolygu'r broses o bennu prisiau yn yr ysbytai.<br>Ni chaiff prydau staff eu cymorthdalu ond caiff prydau staff ac ymwelwyr eu prisio'n wahanol. Mae prisiau prydau staff ac ymwelwyr yn wahanol ym mhob ysbyty. |
| Mae gwastraff yr ystafell fwyta'n cael ei fonitro | ✓ | Mae staff arlwyo'n monitro gwastraff heb ei weini yn y bwytai i staff/ymwelwyr. Honnwyd bod lefelau gwastraff yn isel ond nid ydym wedi dilysu'r honiadau fel rhan o'r archwiliad hwn. |

## Dosbarthu bwyd i'r ward ac i'r claf

15. ***Mae'r trefniadau ar gyfer dosbarthu bwyd i'r wardiau a'r cleifion yn effeithiol ar y cyfan ond mae lle i wella profiadau amser bwyd i gleifion. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:***
    - ***ar y cyfan, mae'r bwyd yn flasus ac wedi'i gyflwyno'n dda ond ar rai wardiau, caiff cleifion sydd angen cymorth i fwyta eu trin yn wahanol;***
    - ***mae'r bwyd yn cael ei weini'n gyflym ac yn effeithlon i'r cleifion, ac mae'r cleifion yn derbyn y pryd o fwyd y gwnaethant ei ddewis;***
    - ***mae staff y ward yn cydymffurfio ag arferion hylendid bwyd sylfaenol er gwaethaf diffyg hyfforddiant ffurfiol;***
    - ***nid yw'r polisi amser bwyd wedi'i ddiogelu yn cael ei ddilyn bob amser; ac***
    - ***nid yw pob claf yn cael cyfle i baratoi ar gyfer amser bwyd.***
16. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad.

**Dosbarthu bwyd i'r ward a'r claf**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Gwybodaeth bellach |
|---|---|---|
| Mae'r bwyd yn cyrraedd y ward ar yr amser cywir. | ✓ | Yn gyson, dechreuai'r gwaith o weini'r pryd ar yr amser a drefnwyd. Cadarnhaodd rheolwyr y wardiau nad oedd problemau ynghylch prydlondeb. Canfu ein harolwg fod 55% o'r cleifion bob amser yn hapus gydag amser prydau ac roedd 37% yn hapus gan amlaf. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Gwybodaeth bellach |
|---|---|---|
| Mae'r bwyd yn cyrraedd y ward mewn cyflwr da (ee ar y tymheredd cywir). | ✓/✗ | Roedd staff arlwyo ar y ward yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Singleton yn cadw cofnodion tymheredd pob eitem o fwyd oedd yn cael ei ail-baratoi neu ei gadw'n oer. Fel rhan o'n gwaith arsylwi ar wardiau, gwelsom dymheredd uwch na 80°C adeg gweini'r bwyd ar wardiau lle câi'r bwyd ei ail-baratoi. Wrth archwilio tymheredd ar ôl gweini bwyd, gwelsom ei fod yn uwch na 68°C. Mae hyn yn bodloni'r safon ofynnol a argymhellir ar gyfer bwyd poeth (63°C).<br><br>Mae staff nyrsio yn Ysbyty Tywysoges Cymru i fod i gofnodi tymheredd bwyd yn y llyfr yng nghegin y ward er i archwiliad o'r llyfrau cofnodion ddangos nad oedd yr arfer bob amser yn cael ei ddilyn; nid oedd staff nyrsio ar Ward 18 yn mesur tymheredd bwyd.<br>Nid oedd staff nyrsio yn Ysbyty Treforys yn cofnodi tymheredd bwyd.<br>Dangosodd ein gwaith arsylwi ar wardiau fod y rhan fwyaf o'r bwyd yn edrych yn flasus ond weithiau roedd yn edrych braidd yn sych, efallai am ei fod yn cael ei goginio neu ei gadw'n gynnes yn rhy hir. Yn Ysbyty Tywysoges Cymru, gwelsom staff y gegin yn llwytho bwyd wedi'i goginio ar y troliau gweini bwyd wedi'i ailbaratoi tua 10.30 ar gyfer ei weini amser cinio am 12. Ar adegau eraill, edrychai pasteiod cig yn olau am nad oedd y ffyrnau ailbaratoi wedi brownio'r crwst, a fyddai wedi gwella ei ymddangosiad. Mewn achosion o'r fath, mae'r staff arlwyo wedi newid y dull o ailbaratoi.<br>Canfu ein harolwg cleifion:<br>• fod dros hanner y cleifion (55%) yn dweud fod y bwyd bob amser yn cael ei weini ar y tymheredd y byddent yn ei ddisgwyl a dywedodd un o bob pump (18%) o'r cleifion mai anaml y caent fwyd ar y tymheredd y byddent yn ei ddisgwyl, neu nad oeddynt byth yn cael bwyd ar y tymheredd y byddent yn ei ddisgwyl; mae'r ffigurau hyn yn cymharu â rhai cleifion ledled Gymru (53% a 16%); a<br>• dywedodd dau glaf y gallai'r bwyd fod yn gynhesach a bod gweini pob cwrs gyda'i gilydd, gan gynnwys y ddiod boeth, yn peri i'r bwyd oeri. |

| | | |
|---|---|---|
| Mae'r bwyd yn cael ei ddosbarthu i'r claf yn gyflym ac yn effeithlon | ✓ | Roedd yr amser a dreulid yn gweini prydau'n amrywio rhwng 20 munud a 55 munud ac yn dibynnu ar bwy oedd yn gweini'r prydau a sut y caent eu gweini. Roedd staff nyrsio ar Ward 18 yn gweini pob cwrs ar wahân ac yn aros nes oedd y cleifion yn barod am eu hail gwrs, ac roedd amser bwyd yn 55 munud o'r dechrau i'r diwedd. Roedd amser bwyd yn tueddu i fod yn fyrrach yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Singleton lle roedd staff arlwyo ar y ward yn gweini'r bwyd.<br>Dywedodd staff nyrsio wrthym eu bod yn aml yn gweini bwyd i gleifion oedd angen cymorth yn olaf fel eu bod yn rhydd i'w cynorthwyo ac i gadw'r bwyd yn boeth. |
| Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod cleifion yn derbyn y pryd cywir. | ✓/✗ | Mae system cynllun gwelyau ar waith yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Singleton sy'n nodi anghenion deietegol pob claf. Mae staff arlwyo ar y ward yn defnyddio'r cynlluniau gwelyau i gymryd archebion gan gleifion sy'n cael bwyta ac i amlygu pa gleifion sydd angen deietau arbennig a gweini bwyd addas iddynt.<br>Mae staff nyrsio sy'n gweini cleifion yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Treforys yn sicrhau bod cleifion sydd ag anghenion deietegol arbennig yn cael eu gweini'n briodol. Fodd bynnag, yn Ysbyty Tywysoges Cymru, gwelsom glaf yn cael brechdan ham pan oedd angen deiet lysieuol arni, sy'n awgrymu bod angen gwella'r gwasanaeth archebu prydau.<br>Dywedodd staff nyrsio wrthym ei bod hi'n anodd adnabod y bwyd a gâi ei weini weithiau, ac roedd un claf a ymatebodd i'n harolwg wedi sylwi ar hyn. Eglurodd staff nyrsio ei bod hi'n anodd cymharu'r bwyd ar y troli gweini â'r fwydlen ddyddiol gan na wyddent ai Wythnos 1 neu Wythnos 2 oedd hi yng nghylch y fwydlen. I oresgyn y broblem, yn Ysbyty Treforys, mae staff y gegin yn sicrhau bod rhestr o'r prydau, gan gynnwys prydau arbennig, yn cael ei rhoi ar bob troli.<br>Canfu ein harolwg cleifion:<br>• fod 57% o'r cleifion bob amser yn cael y pryd a archebwyd ganddynt, sy'n eithaf tebyg i'r ffigwr ar gyfer Cymru (56%). |
| Mae staff penodedig (staff gweini, staff cadw tŷ neu arlwywyr ar y ward) ar gael i helpu i weini'r prydau. | ✓/✗ | Mae gan Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Singleton staff arlwyo penodedig ar y wardiau.<br>Yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Treforys, mae staff nyrsio'n gweini cleifion ac eithrio'r ward bediatrig a ward cleifion canser yn Ysbyty Treforys lle mae staff arlwyo penodedig ar gael. |

| | | |
|---|---|---|
| Mae staff sy'n rhan o'r gwaith o weini bwyd wedi cael hyfforddiant ar sut i gyflwyno bwyd. | ✓/✗ | Roedd trefniadau'n amrywio yn ôl y model o wasanaeth a oedd ar waith.<br>• Roedd staff arlwyo ar y ward yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Singleton yn derbyn hyfforddiant ar sut i gyflwyno bwyd a gwelwyd effaith hyn yn ystod amser bwyd. Hefyd, roedd fideo ar gyflwyno bwyd ar gael i staff yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot a byddai prif gogydd gwasanaethau cleifion yr ysbyty yn ymweld â ward ar hap ddwywaith yr wythnos i fonitro sut y câi bwyd ei gyflwyno a'r modd y câi dognau eu rheoli.<br>• Ni châi staff nyrsio yn Ysbyty Tywysoges Cymru hyfforddiant ar sut i gyflwyno bwyd.<br>• Roedd staff arlwyo yn Ysbyty Treforys wedi hyfforddi staff nyrsio ar sut i ddefnyddio'r troliau gweini bwyd wedi'i ail-baratoi pan gafodd y gwasanaeth coginio a rhewi ei gyflwyno gyntaf, ynghyd â hyfforddiant ar reoli dognau, cyflwyno bwyd a hylendid bwyd. Cedwir rhestr o Reolau Euraid gyda phob troli i atgoffa staff nyrsio.<br>• Gwelsom rai enghreifftiau o brif brydau'n cael eu gweini mewn powlenni yn hytrach nag ar blatiau. Pan ofynnwyd pam oedd hyn yn digwydd, dywedwyd mai arfer ar gyfer cleifion a oedd angen cymorth i fwyta oedd hyn. Mae'r arfer yn cyferbynnu'n gryf â'r hyn a welwyd gan fyrddau iechyd eraill lle derbyniai cleifion yr un gwasanaeth waeth a oedd angen cymorth arnynt i fwyta neu os oedd ansawdd y bwyd wedi'i addasu ai peidio. |

| | | |
|---|---|---|
| Mae staff sy'n rhan o'r gwaith o weini bwyd wedi cael hyfforddiant hylendid bwyd. | ✓/✗ | Roedd y staff arlwyo wedi cael hyfforddiant ar hylendid bwyd. Fodd bynnag, dywedodd staff nyrsio wrthym nad oeddent o reidrwydd yn derbyn hyfforddiant hylendid bwyd sylfaenol er bod staff yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Treforys yn gweini prydau i gleifion. Nododd y Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd ar gyfer 2009-10 ddau gam gweithredu a oedd ar waith ar adeg ein harchwiliad, sef adolygu hyfforddiant ymwybyddiaeth o hylendid bwyd i staff nad ydynt yn staff arlwyo ar lefel y ward a nodi lefel yr hyfforddiant/addysg sydd ei angen ar gyfer pob grŵp staff. |
| Mae trefniadau amser bwyd wedi'i ddiogelu ar waith. | ✓/✗ | Roedd amser bwyd wedi'i ddiogelu yn arfer a oedd wedi sefydlu'n dda yn yr hen Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg. Yn 2009, cafodd amser bwyd wedi'i ddiogelu ei gyflwyno i wardiau yn Ysbyty Treforys ac Ysbyty Singleton.<br>Nid oedd gan y wardiau yr ymwelwyd â hwy arwyddion yn sôn am amser bwyd wedi'i ddiogelu bob amser. Nid oedd staff nyrsio yn ofni gorfodi amser bwyd wedi'i ddiogelu a gwelwyd hwy'n herio criwiau ambiwlans a ddaeth i gasglu cleifion yn ystod amser bwyd. Er hyn, roedd lefelau cydymffurfiaeth yn amrywio, gyda ffisiotherapyddion yn ymweld â chleifion, neu weithgarwch glanhau yn parhau, ar ôl dechrau amser bwyd.<br>Canfu ein harolwg cleifion:<br>• fod y rhan fwyaf o'r cleifion (87%) yn dweud eu bod bob amser, neu gan amlaf yn gallu bwyta'u bwyd heb i neb darfu arnynt sy'n debyg i'r ffigwr ar gyfer Cymru (88%); a<br>• bod 76% o gleifion bob amser yn cael digon o amser i orffen eu prydau o gymharu â 77% ledled Cymru. |
| Mae mannau cleifion yn cael eu paratoi i dderbyn prydau bwyd. | ✓/✗ | Roedd y rhan fwyaf o'r wardiau yn ceisio tacluso byrddau ymyl gwely, gan gynnwys symud pethau a allai fod yn wastraff clinigol, hy, padellau gwely, cyn amser bwyd.<br>Canfu ein harolwg cleifion:<br>• fod 63% o gleifion a ymatebodd i'n harolwg wedi dweud fod y man lle roeddent yn bwyta eu bwyd bob amser yn lân ac yn daclus o gymharu â 69% ledled Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| Mae cleifion yn cael cyfle i baratoi at amser bwyd drwy olchi eu dwylo cyn bwyta ac i fynd i'r man iawn ar gyfer bwyta (yn y gwely neu allan o'r gwely). | ✓/✗ | Ni welsom unrhyw gleifion yn cael cymorth i baratoi ar gyfer amser bwyd ond soniodd staff y wardiau am y gwahanol drefniadau oedd ar waith. Gwelsom gleifion yn eistedd yn gyffyrddus yn ystod amser bwyd. Fodd bynnag, dywedodd therapyddion lleferydd ac iaith wrthym fod eu gwaith arsylwi wedi canfod nad yw cleifion sy'n cael anhawster llyncu bob amser yn cael eu lleoli'n gywir cyn prydau neu nad oedd y cleifion hyn yn cael eu goruchwylio'n ddigonol yn ystod amser bwyd.<br><br>Canfu ein harolwg cleifion:<br><br>• fod 61% o gleifion bob amser yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn bwyta o gymharu â 65% ledled Cymru; a<br>• bod 63% o gleifion angen cymorth i ddod yn gyffyrddus cyn bwyta eu prydau a dau o bob pump o'r cleifion hyn bob amser yn derbyn y cymorth oedd ei angen arnynt; ledled Cymru roedd 64% o gleifion angen cymorth i fod yn gyffyrddus ond dim ond un o bob pedwar oedd bob amser yn cael y cymorth oedd ei angen arnynt. |

## Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad

17. ***Mae'r gwasanaethau arlwyo yn ddigon hyblyg i sicrhau bod y rhan fwyaf o gleifion yn derbyn y maeth sydd ei angen arnynt ond mae sgrinio maethol ar adeg eu derbyn yn aml yn anghyflawn. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:***
    - ***fel rheol, caiff cleifion eu sgrinio ar adeg eu derbyn i ganfod unrhyw risg maethol ond mae'r wybodaeth a gofnodir fel rhan o'r broses sgrinio yn aml yn anghyflawn gyda rhy ychydig o gleifion yn cael eu pwyso neu'n derbyn asesiad iechyd y geg;***
    - ***mae gormod o gleifion, y nodwyd eu bod yn wynebu risg o ddiffyg maeth, heb gynlluniau gofal;***
    - ***ni chafodd ychydig o gleifion y nodwyd eu bod yn wynebu risg uchel o ddiffyg maeth eu hatgyfeirio am asesiad deietegol;***
    - ***mae'r bwydlenni'n rhoi dewis eang o fwyd i ddiwallu anghenion deietegol cleifion ac mae prydau eraill ar gael i gleifion sy'n colli pryd o fwyd ond mae'r byrbrydau sydd ar gael yn fwy cyfyngedig; ac***
    - ***mae cymorth parod ar gael i gleifion sydd angen cymorth amser bwyd.***

18. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad.

**Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Gwybodaeth bellach |
|---|---|---|
| Mae cleifion yn cael eu pwyso a'u sgrinio am broblemau maeth o fewn 24 awr i gael eu derbyn, drwy ddefnyddio offeryn sgrinio maethol wedi'i ddilysu | ✓/✗ | Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio offeryn WAASP[5] a ddatblygwyd ac a ddilyswyd gan hen Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro.<br>Canfu ein hadolygiad o nodiadau achos:<br>• fod 59 o'r 60 claf wedi'u sgrinio gan ddefnyddio'r offeryn WAASP; a<br>• bod 42 o'r 60 claf wedi'u pwyso o fewn 24 awr i gael eu derbyn, neu'n fuan wedyn yn dibynnu ar eu cyflwr; dibynnai rhai wardiau ar y pwysau a gofnodwyd yn y clinigau asesu cyn llawdriniaeth orthopedig neu yn asesiadau cleifion yr unedau derbyniadau meddygol; nid oedd rhesymau dros beidio â phwyso cleifion o anghenraid yn cael eu cofnodi ar yr offeryn risg WAASP:<br>– roedd gan naw o'r 12 ward yr ymwelwyd â hwy gloriannau at eu defnydd; roedd y glorian ar un ward yn rhan o'r teclyn codi, ac ni châi ei hystyried yn ffordd urddasol o bwyso cleifion a allai symud yn iawn; roedd staff wardiau'n cwyno am lawer o |

[5] *Weight Appetite Ability to Eat – Stress Fractures and Pressure Sores/Wounds – offeryn asesu maeth y Bwrdd Iechyd a fabwysiadwyd gan Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro.*

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Gwybodaeth bellach |
|---|---|---|
| | | broblemau gyda rhannau'n torri, fel pecyn gwefru'r batri. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y broblem ac roedd wrthi'n nodi nifer a math y cloriannau sy'n cael eu defnyddio yn ei ysbytai. |
| | | • Dim ond saith o'r 60 cofnod nyrsio a adolygwyd oedd yn cynnwys mesur taldra gan fod offeryn sgrinio WAASP yn gofyn amdano; roedd taldra cleifion yn tueddu i gael ei gofnodi yn y clinig orthopedig.<br>Canfu ein harolwg cleifion:<br>• fod 30% o'r cleifion yn dweud bod aelod o staff yr ysbyty wedi trafod eu hanghenion deietegol â hwy o gymharu â 41% ledled Cymru; a<br>• dywedodd 52% o'r cleifion eu bod wedi cael eu pwyso yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty o gymharu â 66% ledled Cymru.<br>Awgryma'r canfyddiadau hyn fod lle o hyd i wella asesiadau maethol o fewn y 24 awr gyntaf ar ôl derbyn cleifion.<br>Tynnodd ein hadolygiad o nodiadau achos sylw at nifer o faterion eraill:<br>• Roedd lefel y manylder a gofnodir yn y dogfennau nyrsio am statws maethol cleifion yn amrywio.<br>• Ni chafodd sgôr pob claf a gafodd ei nodi fel un oedd yn wynebu risg isel o ddiffyg maeth ei ailgyfrif ar ôl saith diwrnod.<br>• Pan fo sgôr claf yn cael ei ailgyfrif, mae staff nyrsio'n cofnodi'r sgôr WAASP ar y daflen fonitro ond nid yw'n nodi'r sgôr ar gyfer yr elfennau cyfansoddol. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried ailgynllunio'r dull monitro WAASP ar ffurf debyg i offeryn risg Waterlow. Byddai'r rhesymau am unrhyw newidiadau yn y sgôr WAASP yn hawdd i'w canfod.<br>Nid yw'r dull presennol o sgrinio ar gyfer canfod problemau maethol yn cynnwys asesiad o iechyd y geg ac ni chaiff ei gofnodi ar y ddogfen asesu unedig chwaith. Gwelodd ein hadolygiad o nodiadau achos mai dim ond naw o'r 60 cofnod oedd yn cynnwys gwybodaeth am iechyd y geg ond gwelsom fod cynlluniau gofal iechyd y geg yn cael eu defnyddio ar gyfer cleifion mewnol ar Ward 18 yn Ysbyty Tywysoges Cymru.<br>Mynegodd staff deietegol nifer o bryderon ynghylch dibynadwyedd y sgrinio a wnaed i ganfod risg maethol, yn enwedig y canlynol:<br>• mae gwahaniaethau rhwng sgoriau risg gwaith sgrinio gan staff deietegol a'r sgoriau a geir gan staff nyrsio; honnir bod staff deietegol yn sgorio risg cleifion yn uwch gan awgrymu efallai na fydd rhai cleifion ar eu hennill o asesiad deietegol;<br>• ar y llaw arall byddai cleifion sy'n cael eu nodi fel rhai risg isel ar eu hennill o gael eu cymeriant bwyd wedi'i fonitro; a'r |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Gwybodaeth bellach |
|---|---|---|
| | | • angen i safoni'r gweithdrefnau ar gyfer archebu byrbrydau yn yr ysbytai fel bod cleifion a gafodd eu nodi fel rhai risg cymedrol neu uchel yn derbyn y byrbrydau angenrheidiol. |
| | | Dywedodd staff rhai wardiau wrthym eu bod weithiau'n rhoi sgôr uwch i elfennau o'r offeryn WAASP er mwyn atgyfeirio cleifion at ddeietegydd neu i sicrhau bod cleifion sy'n wynebu risg cymedrol yn cael byrbrydau.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn defnyddio nifer o ddangosyddion perfformiad ar lefel y ward i fonitro safon y gofal nyrsio bob mis. Mae'r dangosyddion hyn yn cynnwys canran y cleifion sy'n cael eu sgrinio i ganfod risg maethol adeg eu derbyn i'r ysbyty a chanran y cleifion sy'n cael eu hailsgrinio o fewn yr amser gofynnol. Canfu ein harolwg o nodiadau achos gyfradd uwch o gydymffurfiaeth â sgrinio maethol adeg derbyn cleifion i'r ysbyty o gymharu â hunanasesiadau'r ward ym Mehefin 2010. Mae arolygon cyffredinolrwydd y Bwrdd Iechyd hefyd yn monitro cydymffurfiaeth â safonau maeth, er enghraifft asesu risg a gweithredu amser bwyd wedi'i ddiogelu. |
| Mae cynllun gofal maeth yn cael ei baratoi a'i weithredu ar sail sgôr risg maeth y claf. | ✓/✗ | Nid oes cynlluniau gofal ar waith ar gyfer pob claf y nodwyd eu bod yn wynebu risg cymedrol neu risg uchel o ddiffyg maeth.<br>Canfu ein hadolygiad o nodiadau achos:<br>• fod 21 o'r 60 claf wedi'u nodi fel cleifion sy'n wynebu risg cymedrol neu uchel, ond nid oedd gan chwech o'r 21 yma gynllun gofal maeth.<br>Hefyd, dywedodd staff deietegol wrthym nad yw'n glir weithiau a gwblhawyd pob eitem gofal yn y cynllun gofal maeth. |
| Lle bo'n briodol, mae cleifion yn cael eu hatgyfeirio at ddeietegydd, a/neu at therapydd lleferydd ac iaith. | ✓/✗ | Nododd rheolwyr wardiau fod staff nyrsio, deietegwyr a therapyddion lleferydd ac iaith yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd. Hefyd, mae rowndiau amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal ar rai wardiau felly gallai fod cyngor deietegol ar gael i gleifion nad ydynt o bosibl yn cyrraedd y trothwy ar gyfer eu hatgyfeirio am asesiad deietegol. Fodd bynnag, canfu ein hadolygiad o nodiadau achos na chafodd dau glaf y nodwyd eu bod yn wynebu risg uchel o ddiffyg maeth eu hatgyfeirio am asesiad deietegol. Hefyd, ni chafodd un claf y 'rhagnodwyd' deiet 500kcal y dydd iddo gan yr ymgynghorydd meddygol ei atgyfeirio am asesiad deietegol llawn.<br>Yn y gorffennol, cynhaliodd y therapyddion lleferydd ac iaith sesiynau dysgu agored i staff nyrsio ar sut i adnabod a rheoli anhawster llyncu, ansawdd a thrwch addas bwyd a diodydd ar gyfer cleifion sy'n cael anhawster llyncu, yr ystum corff cywir ar gyfer bwyta ac yfed a maint y cytleri sydd eu hangen. Honnwyd bod staff nyrsio'n gwybod mwy bellach am y gwahanol fathau o ddeietau ansawdd wedi'i addasu ac yn deall bod hylifau tewhau yn berthnasol i gawl a grefi |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Gwybodaeth bellach |
|---|---|---|
| | | hefyd.<br>Darparodd yr adran ddeietegol hyfforddiant gloywi i staff arlwyo ar y mathau gwahanol o ddeietau therapiwtig, megis deiet heb glwten. Fodd bynnag, nododd staff nyrsio fod gwendidau yn eu gwybodaeth am ofal maeth da. |
| Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod staff sy'n gweini prydau'n ymwybodol o anghenion maeth penodol cleifion. | ✓ | Mae deietegwyr yn rhoi gwybod i staff arlwyo pa gleifion sydd angen deiet therapiwtig a chofnodir deiet arbennig yn y llyfrau deiet ar y wardiau yn Ysbyty Singleton neu gyda'r prif gogydd yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot.<br>Yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Treforys, staff nyrsio sy'n gweini prydau i gleifion a nhw sy'n gyfrifol am sicrhau bod y claf yn derbyn y pryd cywir. |
| Mae dewis da o fwyd i gleifion ar y fwydlen. | ✓/✗ | Mae gan bob ysbyty ei fwydlen ei hun ac mae cylch pythefnos i fwydlenni Ysbyty Tywysoges Cymru, Ysbyty Treforys ac Ysbyty Singleton. Mae Ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn defnyddio cylch tair wythnos. Fodd bynnag, yn Ysbyty Tywysoges Cymru roedd y dewis dyddiol i'r cleifion yn gyfyngedig iawn: un pryd cig neu un pryd llysieuol o gymharu â'r ysbytai eraill lle roedd tri dewis y dydd – dau ddewis cig ac un llysieuol.<br>Dywedodd staff wrthym y gallai'r bwydlenni ar gyfer deiet arbennig fod yn well o ehangu'r dewis a sicrhau bod cleifion yn derbyn yr un cynhyrchion waeth ym mha ysbyty yr oeddent.<br>Canfu ein harolwg cleifion:<br>• fod 37% o'r cleifion yn dweud bod digon o ddewis ar gael bob amser ond dywedodd traean arall (36%) mai anaml y ceid digon o ddewis, neu nad oedd byth ddigon o ddewis ar gael; a<br>• dywedodd 21% o'r cleifion nad oedd y fwydlen yn newid yn ddigon aml.<br>Yn Ysbyty Singleton ac Ysbyty Treforys, nodwyd bod llawer o wastraff pan gâi ffrwythau ffres eu cynnig. I leihau gwastraff yn ogystal â chynnig ffrwythau, cyflwynwyd cynnyrch masnachol newydd – ffrwythau mewn jeli. Fodd bynnag, soniodd cleifion a ymatebodd i'n harolwg am y diffyg ffrwythau ffres.<br>Ar hyn o bryd, nid oes llyfryn gwybodaeth ar gael i gleifion y Bwrdd Iechyd sy'n rhoi gwybodaeth eglur am y gwasanaethau arlwyo a maeth; er enghraifft, sut y caiff gwasanaethau eu darparu, dewis y fwydlen, neu pam nad oes rhai eitemau o fwyd fel tost neu laeth sgim ar gael fel mater o drefn. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Gwybodaeth bellach |
|---|---|---|
| Mae'r fwydlen yn cynnwys dewisiadau i gleifion gydag anghenion penodol o ran crefydd, diwylliant ffordd o fyw neu gyflwr meddygol. | ✓ | Mae'r fwydlen yn cynnig dewisiadau i ddiwallu anghenion cleifion sydd ag anghenion deietegol penodol ond mae trefniadau prynu neu baratoi deietau arbennig yn amrywio o un ysbyty i'r llall. Bydd y pwyllgor arlwyo'n edrych i weld sut y gellir cysoni'r gwahanol drefniadau fel bod cleifion yn derbyn gwasanaeth o'r un safon.<br>Canfu ein harolwg cleifion fod rhai cleifion wedi cael profiadau gwael:<br>• roedd 23 o'r 60 claf a ddywedodd eu bod angen deiet arbennig wedi cael bwyd addas i'w hanghenion deietegol bob tro, ond dywedodd 17 o gleifion mai anaml y caent fwyd addas i'w hanghenion, neu na chawsant fwyd addas i'w hanghenion o gwbl; cafwyd sawl sylw negyddol am ddiffyg dewis i gleifion ar ddeiet diabetig neu ddeiet heb glwten a dywedwyd bod un claf wedi aros tri diwrnod am ddeiet heb glwten;<br>• dywedodd chwech o'r 23 claf a oedd angen deiet llysieuol fod digon o ddewis bob amser i ddiwallu eu hanghenion ond dywedodd 12 claf mai anaml y caent brydau addas i'w hanghenion;<br>• dywedodd 28 o'r 45 claf oedd â chredoau crefyddol penodol fod digon o ddewis bob amser i ddiwallu eu hanghenion ond dywedodd tri chlaf mai anaml y caent brydau addas i'w hanghenion, neu na chawsant brydau addas i'w hanghenion o gwbl; a<br>• dywedodd naw o'r 23 claf ag alergedd bwyd fod digon o ddewis bob amser i ddiwallu eu hanghenion ond dywedodd saith claf mai anaml y caent brydau addas i'w hanghenion, neu na chawsant brydau addas i'w hanghenion o gwbl. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Gwybodaeth bellach |
|---|---|---|
| Mae trefniadau ar waith i nodi cleifion a allai fod angen cymorth arbennig i fwyta eu bwyd. | ✓ | Mae ychydig o systemau ar waith i nodi pa gleifion sydd angen cymorth amser bwyd. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:<br>• Mae Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn gosod hysbysiad uwchben gwely claf yn dilyn asesiad llyncu. Mae'r hysbysiadau cod lliw hyn yn tynnu sylw staff at ba ansawdd a thrwch sy'n briodol ar gyfer bwydydd a hylifau.<br>• Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn araf yn gweithredu'r system hambwrdd coch amser bwyd. Er iddo brynu cyflenwad o hambyrddau coch, nid oedd y rhain wedi'u dosbarthu ar gyfer eu defnyddio ar adeg ein harchwiliad. Roedd Ward 7 Ysbyty Singleton wedi goresgyn y diffyg hambyrddau coch drwy gyflwyno fersiwn rhad o'r un syniad, sef hongian sêr coch wedi'u gwneud â llaw uwchben gwely'r claf.<br>• Yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, mae staff nyrsio'n gosod hysbysiad coch ar yr hambwrdd bwyd i ddynodi fod cymeriant bwyd yn cael ei fonitro ac na ddylai staff arlwyo symud yr hambwrdd oni bai fod y cerdyn wedi'i droi drosodd i ddangos ei bod hi'n iawn iddynt fynd â'r hambwrdd. |
| Mae cleifion yn cael cymorth i fwyta lle bo angen. | ✓ | Gwelsom gleifion yn cael cymorth gan staff amser bwyd, er enghraifft i agor pecynnau neu dorri bwyd a gwelwyd staff nyrsio'n bwydo cleifion.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal rhaglen wirfoddoli, lle mae gwirfoddolwyr yn ymweld â rhai wardiau amser bwyd i annog cleifion i fwyta, er nad yw'r gwirfoddolwyr yn bwydo cleifion.<br>Canfu ein harolwg cleifion:<br>• fod 26 o'r cleifion a ymatebodd i'r arolwg yn dweud eu bod angen cymorth i fwyta ac o'r rhain, dywedodd 15 eu bod bob amser yn cael y cymorth oedd ei angen arnynt ond dywedodd chwech mai anaml y caent y cymorth oedd ei angen arnynt, neu na chawsant y cymorth oedd ei angen arnynt o gwbl; 11 o'r cleifion oedd yn derbyn cymorth yn ddigon buan ar ôl i'w pryd gyrraedd;<br>• roedd 12 o'r 25 claf a oedd angen cymhorthion bwyta yn eu cael bob tro ond dywedodd pedwar claf na chawsant mohonynt o gwbl; a<br>• mynegodd rhai cleifion bryder gan eu bod wedi sylwi ar rai cleifion na chafodd gymorth i fwyta neu fod prydau bwyd wedi'u gadael allan o'u cyrraedd. |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Gwybodaeth bellach |
|---|---|---|
| Mae cleifion yn gallu cael byrbrydau pan nad yw hi'n amser bwyd. | ✓ | Mae gan bob ysbyty ei drefniadau ei hun i ddarparu byrbrydau pan nad yw hi'n amser bwyd neu pan fo'r ceginau wedi cau. Gan amlaf, caiff byrbrydau eu rhagnodi gan staff deietegol i gleifion ag anghenion deietegol arbennig, fel cleifion diabetig neu gleifion y mae sgrinio wedi dangos eu bod yn wynebu risg uchel o ddiffyg maeth. Yn Ysbyty Treforys, cafodd y ffurflen archebu byrbrydau ei hailwampio i wneud archebu'n haws ac yn gyfrifoldeb i'r staff nyrsio. Yn gyffredinol, roedd rheolwyr y wardiau'n hyderus bod y trefniadau hyn yn diwallu anghenion cleifion ond dywedodd rhai aelodau o staff wrthym eu bod weithiau'n rhoi sgôr WAASP uwch i sicrhau bod cleifion yn cael byrbrydau.<br>Canfu ein harolwg cleifion:<br>• fod chwarter (24%) y cleifion yn dweud fod byrbrydau ar gael bob amser neu y rhan fwyaf o'r amser rhwng prydau bwyd o gymharu â 39% ledled Cymru; dywedodd bron hanner (48%) y cleifion nad oedd byrbrydau byth ar gael o gymharu â 35% drwy Gymru.<br>Os yw claf yn colli pryd bwyd, mae pryd arall ar gael iddo. Gall staff wardiau ofyn am brydau o'r bwytai pan fyddant ar agor ac mae Ysbyty Treforys ac Ysbyty Singleton yn cynnig bwydlen ar gyfer dewis pryd yn lle'r un a gollwyd.<br>Canfu ein harolwg cleifion:<br>• fod 40% o'r cleifion a oedd wedi colli pryd wedi gallu cael un arall yn ei le bob tro o gymharu â 55% ledled Cymru. |
| Mae cymeriant bwyd cleifion yn cael ei fonitro'n rheolaidd drwy ddefnyddio Siart Cofnodi Bwyd Cymru Gyfan | ✓/✗ | Er na archwiliwyd sut y cwblhawyd siartiau bwyd a diod Cymru gyfan, gwelsom staff yn cwblhau'r rhain ar gyfer cleifion yr oedd eu cymeriant bwyd yn cael ei fonitro. Fodd bynnag, roedd rhai staff nyrsio cofrestredig yn ansicr ynglŷn â sut i'w ddefnyddio. Roedd eraill yn ystyried bod y siartiau'n diraddio'u gwaith a'u barn broffesiynol ond eu bod yn adnodd defnyddiol i fyfyrwyr nyrsio, a oedd yn llenwi'r siartiau fel rheol. |

## Casglu barn cleifion a rhannu gwybodaeth

19. ***Er bod yna ymdrech i gasglu barn cleifion, gellid gwneud mwy i gyhoeddi sut mae eu barn yn cyfrannu at welliannau yn y gwasanaeth o ystyried bod boddhad cleifion â'r gwasanaeth yn gymharol isel ar y cyfan. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:***
    - ***gwneir ymdrech i gasglu barn cleifion ar y gwasanaethau arlwyo ond mae eu cyfraniad i arolygon ansawdd yn gyfyngedig; ac***
    - ***mae llai na hanner y cleifion yn fodlon ag ansawdd y bwyd a ddarperir.***

20. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau sy'n cefnogi'r casgliad.

**Casglu barn cleifion am y gwasanaethau arlwyo**

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Gwybodaeth bellach |
|---|---|---|
| Mae yna weithgareddau rheolaidd i gasglu barn cleifion ar y gwasanaethau arlwyo, a'u profiad ohonynt. | ✓ | Mae nifer o systemau ar waith ar gyfer casglu barn cleifion am y bwyd a dderbyniant, gan gynnwys:<br>• adborth gan staff arlwyo ar y ward i'w goruchwylwyr neu'r rheolwyr arlwyo am ansawdd y bwyd sy'n cael ei weini;<br>• ymweliadau rheolwyr neu oruchwylwyr arlwyo â'r wardiau i gael adborth gan staff nyrsio a chleifion;<br>• ymweliadau gan oruchwylwyr arlwyo neu brif gogyddion â wardiau yn ystod amser bwyd i asesu staff arlwyo ar y ward wrth eu gwaith, ac i asesu ansawdd y gwasanaeth a'r dull o'i gyflwyno;<br>• mae prif gogydd gwasanaethau cleifion Ysbyty Castell-nedd Port Talbot yn ymweld â chleifion ag anghenion deietegol arbennig i gael adborth am y prydau bwyd a dderbyniant;<br>• mae gwaith monitro rheolaidd o'r gwasanaethau arlwyo yn Ysbyty Treforys ac Ysbyty Singleton yn cynnwys boddhad cleifion, er enghraifft monitro ynglŷn ag archebu prydau, cynnwys y fwydlen, tymheredd prydau ac ansawdd y bwyd.<br>• arolygon boddhad cleifion a gynhelir gan bob adran arlwyo er bod yr ysbytai'n amrywio o ran pa mor aml y câi'r arolygon eu cynnal;<br>• gwaith Cydgysylltydd Profiad Cleifion i gasglu barn a phrofiadau cleifion;<br>• mae archwiliad nyrsio Hanfodion Gofal yn cynnwys safbwyntiau cleifion ar y gwasanaethau bwyd; ac<br>• mae arolygon cyffredinolrwydd yn cynnwys barn cleifion ar y gwasanaethau bwyd.<br>Dywedodd rhai o'r staff fod cleifion yn fodlon â'u bwyd yn gyffredinol ond mynegwyd pryder y gallai cleifion fod â disgwyliadau isel gan mai 'bwyd ysbyty' ydyw.<br>Gwelodd ein harolwg cleifion fod boddhad cyffredinol yn is nag mewn ysbytai eraill ledled Cymru: |

| Arfer disgwyliedig | Ar waith? | Gwybodaeth bellach |
|---|---|---|
